**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)**

**Y Bil Pysgodfeydd**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu at ddiben sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cafodd y Bil Pysgodfeydd ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 29 Ionawr 2020 a chwblhaodd ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi ar 1 Gorffennaf 2020. Mae'r fersiwn ddiweddaraf ohono i'w weld yma:

   Dogfennau'r Bil – Bil Pysgodfeydd 2019-21 – Senedd y DU (ar ôl cyfnod adrodd Tŷ'r Arglwyddi)

## Amcan y Polisi

3. Mae Llywodraeth y DU yn wedi datgan y bydd y Bil Pysgodfeydd yn darparu'r fframwaith cyfreithiol i'r Deyrnas Unedig weithredu fel gwladwriaeth arfordirol annibynnol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr 1982 (UNCLOS) ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

## Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

5. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer:
   - amcanion polisi mewn perthynas â physgodfeydd, pysgota a dyframaethu, datganiadau pysgodfeydd a chynlluniau rheoli pysgodfeydd;
   - mynediad i bysgodfeydd Prydain;
   - trwyddedu cychod pysgota;
   - pennu a dosbarthu cyfleoedd pysgota;
   - creu cynlluniau ar gyfer codi tâl am ddal pysgod môr heb yr awdurdod i wneud hynny;
   - grantiau ar gyfer pysgota, dyframaethu neu gadwraeth forol
   - adennill costau sy'n gysylltiedig ag arfer swyddogaethau cyhoeddus sy'n ymwneud â physgod neu bysgota;
   - rhoi pwerau i wneud darpariaethau pellach mewn cysylltiad â physgodfeydd, dyframaethu neu anifeiliaid dyfrol;
   - gwneud darpariaeth ar gyfer is-ddeddfau a gorchmynion mewn perthynas â chamddefnyddio pysgodfeydd môr; ac at ddibenion cysylltiedig.

**Yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf**

6. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 12 Chwefror 2020, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd gerbron Senedd y DU ar 29 Ionawr 2020.

7. Cadarnhaodd y Memorandwm fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Rydym yn croesawu cynnwys yr hyn sydd bellach yn gymal 45 sy'n estyn cymhwyster deddfwriaethol y Senedd ar gyfer materion pysgodfeydd y tu hwnt i Gymru, i barth Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod chymhwyster y Senedd yn unol â chymhwyster gweithredol Gweinidogion Cymru.

8. Bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru yn y Bil hwn fel mesur interim hyd nes bod Bil Pysgodfeydd Cymru yn cael ei ddwyn ymlaen i'r Senedd.

**Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf y mae angen cydsyniad ar ei gyfer.**

9. Mae'r diwygiadau a ganlyn sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru ac sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, wedi'u gwneud i'r Bil yn ystod cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi (ni wnaed unrhyw ddiwygiadau ar gam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi):

10. Mae Cymal 1 yn diffinio set o amcanion pysgodfeydd sy'n gymwys ar draws y DU i gyd. Mae diwygiad wedi'i wneud i'r Amcan Cynaliadwyedd sy'n sicrhau mai cynaliadwyedd yw'r prif amcan ac sy'n cynyddu pwysigrwydd cymharol pryderon amgylcheddol o fewn yr amcan hwnnw.

11. Mae Cymal 18 yn gymal newydd sydd wedi'i gynnwys yn y Bil sy'n dwyn y teitl y Gofyniad Glanio Cenedlaethol. Dan y cymal newydd hwn, mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori ar 'ofyniad glanio cenedlaethol' a'i sefydlu i sicrhau bod isafswm canran o bysgod sy'n cael eu dal gan gychod domestig ac estron yn nyfroedd y DU yn cael eu glanio wedyn mewn porthladd yn y DU, Ynys Manaw, Guernsey neu Jersey.

12. Cymal 26 – mae'r diwygiad hwn yn adleoli'r rheolau sy'n ymwneud â dosbarthu cwota o Reoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin i'r Bil.

13. Cymal 27 – mae cymal newydd wedi'i gynnwys yn y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol *cyn* gwneud penderfyniad ar ran y DU ddargadw isafswm o ddyraniad cyfleoedd pysgota Lloegr ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r sector a chychod sy'n 10 metr o hyd neu lai. Ar ôl hynny, byddai angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried yr achos dros gynyddu'r cwota bob blwyddyn a gosod datganiadau gerbron Senedd y DU.

14. Ein barn gychwynnol yw bod diffyg eglurder yng nghymal 27 ac mae hynny'n arwain at gwestiwn ynghylch a oes angen cydsyniad gan y

Senedd. Er bod angen dargadw elfen o gyfleoedd pysgota Lloegr ar gyfer newydd-ddyfodiaid a chychod dan 10 metr, mae'r gofyniad ar gyfer gwneud y cyfrifiad *cyn* bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud penderfyniad ar gyfleoedd pysgota'r DU yn codi cwestiynau ynghylch sut y gall y cyfrifiad hwnnw effeithio ar gyfleoedd pysgota gweinyddiaethau datganoledig. Mae'n bosibl nad yw hyn yn cyd-fynd â'r trefniadau presennol o fewn Concordat Pysgodfeydd 2012. Nid ydym yn meddwl mai bwriad y diwygiad yw hyn ond mae'r potensial ganddo i effeithio ar gyfleoedd pysgota Cymru ac fel y'i drafftiwyd, credwn y bydd angen cydsyniad y Senedd arno. Fodd bynnag, rydym o'r farn mai mater drafftio ydyw y bydd angen ei egluro.

15. <u>Cymal 48</u> – mae cymal newydd wedi'i gynnwys sy'n awdurdodi defnyddio monitro electronig o bell (REM) ar bob cwch pysgota sy'n fwy na 10 metr o hyd sy'n pysgota yn nyfroedd y DU ac mae'n ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi cynlluniau i estyn REM i bob cwch.

16. <u>Newid cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru.</u> Ar gais Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd diwygiadau gan Lywodraeth y DU a chytunwyd arnynt wedi hynny, i wneud newidiadau i'r Bil i ddiweddaru pob cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru. Gwneir y diwygiadau i gyfeiriadau yn Atodlen 1, cymalau 11 a 39, Atodlen 8, a chymalau 43, 47 a 50.

17. <u>Cymal 10 – Rheoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin: Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.</u> Mae Atodlen 10 newydd wedi'i mewnosod, sy'n cynnwys y deunydd a oedd yn yr Atodlen honno ynghynt ac sy'n gwneud diwygiadau pellach i Reoliadau'r UE a ddargedwir. Mae pedwar diwygiad technegol wedi'u gwneud drwy ddiwygiadau Llywodraeth y DU:

18. <u>Cyfeiriadau at Erthygl 2 o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin</u>. Mae Erthygl 2 o Reoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (1380/2013) yn nodi amcanion y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Mae'r diwygiad hwn gan Lywodraeth y DU yn dirymu Erthygl 2 fel ei bod yn glir nad yw'n berthnasol fel rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir. Mae diwygiadau canlyniadol hefyd i ddisodli cyfeiriadau at Erthygl 2 gyda chyfeiriadau at Amcanion y Pysgodfeydd yn y Bil hwn ar draws cyfraith yr UE a ddargedwir.

19. <u>Hyblygrwydd o ran Cwota</u>. Mae'r diwygiad hwn yn ymwneud â phŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota'r DU. Byddai'n caniatáu i'r cyfleoedd hyn gael eu pennu yn amodol ar yr amrywiaeth bresennol o hyblygrwydd. Hebddo, gallai cymal 28 o'r Bil (dyletswyddau i sicrhau na ragorir ar gyfleodd pysgota) wahardd y mathau presennol o hyblygrwydd (benthyg, hyblygrwydd rhyngrywogaethol, de minimis, cwota gwyddonol, esemptiad abwyd byw ac esemptiad difrod ysglyfaethwyr), a fyddai'n arwain at sefyllfa anymarferol o ran rheoli pysgodfeydd.

20. Ar ben hynny, mae hyd yr amser y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei dreulio yn dod i benderfyniad wedi'i newid o "blwyddyn calendr" i gyfnod amser mwy hyblyg. Mae'r sefyllfa ddiofyn yn dal i olygu bod angen gwneud y

penderfyniad yn flynyddol ond ar gyfer rhai rhywogaethau a chytundebau rhyngwladol mae angen hyblygrwydd. Mae'r newid hwn hefyd yn berthnasol i bwerau Llywodraeth Cymru yn Atodlen 5 - gwerthu cyfleoedd pysgota, er mwyn sicrhau cysondeb.

21. Cynlluniau Amlflwydd. Mae'r diwygiadau hyn yn sicrhau rhywfaint o hyblygrwydd i'r Cynlluniau Amlflwydd presennol, gan gynnwys drwy sicrhau bod y ffordd y cymhwysir y darpariaethau allweddol oddi mewn iddynt yn ddarostyngedig i amrywiad lle y nodir "newid perthnasol mewn amgylchiadau" (mae hyn yn cyd-fynd â'r hyn sydd yn y Bil ar gyfer y Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd a'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd).

22. Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau uchod oherwydd eu bod yn addasu cymhwyster deddfwriaethol y Senedd neu oherwydd eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd**

23. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr holl ddiwygiadau a wnaed yn ystod cyfnod adrodd yr Arglwyddi.

24. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r diwygiad a wnaed gan Dŷ'r Arglwyddi i gymal 26, sy'n ailadrodd y meini prawf yn Erthygl 17 o Reoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar wyneb y Bil.

25. Rydym yn croesawu'r diwygiadau sy'n diweddaru'r Bil i adlewyrchu newid enw Senedd Cymru, yn dilyn Cydsyniad Brenhinol Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ym mis Ionawr 2020. Fe'u cyflwynwyd ar gais Llywodraeth Cymru.

26. Rydym hefyd yn cefnogi diwygiadau Llywodraeth y DU i Atodlen 10, gan eu bod yn newidiadau gweithredol, y cytunwn fod eu hangen er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn ymarferol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.

27. O ran y diwygiadau eraill y cytunwyd arnynt yn ystod cyfnod adrodd yr Arglwyddi i gymalau 1, 18, 27 a 48, mae'r sefyllfa sy'n datblygu'n gyflym ac mae angen ystyried polisi a goblygiadau datganoli pob diwygiad yn fanwl. Ein prif bryder yw sicrhau bod y newidiadau a gyflwynir yn gyson â pholisïau pysgodfeydd Cymru ac nad ydynt yn torri ar draws cymhwyster y Senedd na phwerau gweithredol Gweinidogion Cymru.

28. Os ar ôl cynnal dadansoddiad manwl ein bod yn fodlon i'r diwygiadau barhau yn y Bil, rydym yn disgwyl, fan lleiaf, y bydd angen datrys materion drafftio, i egluro diben y polisi yn fwy ac i adlewyrchu'r setliad datganoli yn gliriach.

29. Mae trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth DU ar rai meysydd o'r Bil ac ar y diwygiadau a wnaed yn ystod cyfnod adrodd yr Arglwyddi. Byddwn

yn nodi ein safbwynt yn fanylach wrth i'r sefyllfa ddatblygu a'r Bil yn parhau ar ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin.

**Camau dilynol sy'n deillio o adroddiadau diweddar Pwyllgorau'r Senedd ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil**

30. Yn dilyn craffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ac argymhelliad 7 a gyflwynwyd gan y Pwyllgor, rydym wedi nodi, yn Atodiad A, y pwerau gwneud OS ar gyfer Gweinidogion Cymru sydd yn y Bil, y rhesymau dros gymryd y pwerau a'r dewis gweithdrefn ar gyfer pob pŵer.

**Goblygiadau ariannol**

31. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Gymru o ganlyniad i gymryd y darpariaethau hyn yn y Bil hwn.

**Casgliad**

32. Rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i ddull y DU gyfan i greu'r Fframwaith Pysgodfeydd a dim ond mewn bil y DU y gellir gwneud hynny. O ran y pwerau yn y Bil nad ydynt yn rhan o'r fframwaith, mae'n bwysig bod Gweinidogion Cymru yn gallu gweithredu'n gyflym ac yn bendant yng Nghymru, hyd nes ein bod yn gallu dwyn ymlaen Bil cynhwysfawr ar gyfer Pysgodfeydd Cymru.

33. Rydym yn cefnogi diwygiadau'r llywodraeth i'r Bil, a'r diwygiad i gymal 26. Rydym yn parhau i ddadansoddi'n fanwl y goblygiadau ehangach i'r diwydiant a rhanddeiliaid o ran y diwygiadau eraill a wnaed gan yr Arglwyddi i gymalau 1, 18, 27 a 48. Rydym yn disgwyl, fan lleiaf, y bydd angen datrys materion drafftio er mwyn egluro diben y polisi yn fwy ac adlewyrchu'r setliad datganoli yn gliriach.

34. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar y Bil hwn. Dechreuodd ei daith yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 2 Gorffennaf a bydd cyfleoedd pellach i geisio diwygio unrhyw rhannau o'r Bil nad ydynt ar hyn o bryd yn gweithio er lles Cymru.

35. Rhagwelir y bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn cael ei osod yn dilyn cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, a chyn trafod cynnig cydsyniad yn y Senedd.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Gorffennaf 2020**

**Atodiad A**

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol – Bil Pysgodfeydd y DU 2019-21. Darpariaethau sy'n cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau a Gorchmynion.**

Mae'r Bil yn darparu sawl pŵer neu offeryn gweithredol a freiniwyd yng Ngweinidogion Cymru (a'r gweinyddiaethau eraill) er mwyn sicrhau bod gan bob gweinyddiaeth gymaint o allu a phŵer â phosibl i reoli eu pysgodfeydd eu hunain. Bydd yr offerynnau hyn yn cael eu defnyddio i weithredu a chyflawni'r polisïau sy'n cael eu datblygu yn y fframwaith pysgodfeydd. Mae'r swyddogaethau hyn yn weithredol ac yn angenrheidiol i sicrhau ein bod yn gallu rhoi effaith i'r polisïau y cytunwyd arnynt o fewn y fframwaith, ond mewn modd sydd wedi'i deilwra orau i ddiwallu anghenion Cymru.

| Rhif y ddarpariaeth | Disgrifiad o'r pŵer | Gweithdrefn ddeddfwriaethol |
|---|---|---|
| Atodlen 3, paragraff 7(1) (trwyddedau pysgota môr) | Gwneud darpariaeth drwy Reoliadau o ran -<br><br>y ffordd y bydd swyddogaethau trwyddedu awdurdod trwyddedu pysgod môr yn cael eu harfer;<br><br>yr adeg pan fo trwydded, neu amrywiad, gwaharddiad dros dro neu ddirymiad trwydded, yn cael effaith;<br><br>yr adeg pan fo amod trwydded neu ychwanegiad, dilead neu amrywiad amod, yn cael effaith. | Gweithdrefn penderfyniad negyddol |
| Atodlen 3 paragraff 7(3) (trwyddedau pysgota môr) | Gwneud darpariaeth drwy Reoliadau yn awdurdodi creu ffioedd mewn perthynas â thrwydded. | Gweithdrefn penderfyniad negyddol |
| Atodlen 3 paragraff 7(5) | Gwneud darpariaeth drwy Reoliadau o ran yr egwyddorion i'w | Os yw Rheoliadau yn lleihau'r amser y caiff cwch pysgota ei dreulio |

| | | |
|---|---|---|
| (Trwyddedau pysgota môr) | cymhwyso gan awdurdod trwyddedu wrth atodi amodau'n ymwneud ag amser a dreulir ar y môr. | ar y môr, maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.<br><br>Fel arall, mae'r weithdrefn penderfyniad negyddol yn gymwys. |
| Atodlen 5, paragraff 1 (Gwerthu cyfleoedd pysgota Cymru) | Darpariaeth drwy Reoliadau ar gyfer gwerthu hawliau i ddefnyddio un neu fwy o cwotâu dalfeydd Cymru a chwotâu ymdrech Cymru. | Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol |
| Atodlen 6, paragraff 2 (2)<br>(Cymorth ariannol) | Darpariaeth drwy Reoliadau i sefydlu cynllun i roi cymorth ariannol ar gyfer naw diben a restrir sy'n gysylltiedig â rheoli'r amgylchedd morol a dyfrol a dibenion pysgod a dyframaethu. | Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol |
| Atodlen 7, paragraff 2 (1)<br>(Gosod ffioedd) | Gwneud darpariaeth drwy Reoliadau i Weinidogion Cymru osod ffioedd mewn cysylltiad â "swyddogaeth forol berthnasol".<br><br>Mae "swyddogaeth forol berthnasol" yn golygu swyddogaeth yn ymwneud ag -<br>(a) cwotâu pysgota;<br>(b) sicrhau bod gweithgareddau pysgota masnachol yn cael eu gwneud yn gyfreithlon;<br>(c) cofrestru prynwyr a gwerthwyr pysgod gwerthiant cyntaf; | Gweithdrefn penderfyniad negyddol |

| | | |
|---|---|---|
| | (d) tystysgrifau dalfeydd ar gyfer mewnforio ac allforio pysgod. | |
| Atodlen 8, paragraff 6 (1) a (4)<br>(Pwerau i wneud darpariaeth bellach) | Gwneud darpariaeth drwy Reoliadau i weithredu cytundeb rheoli pysgodfeydd rhanbarthol –<br><br>(a) i weithredu rhwymedigaeth ryngwladol y DU sy'n ymwneud â physgodfeydd, pysgota neu ddyframaethu.<br><br>(b) at ddiben cadwraeth<br><br>(c) at ddiben diwydiant pysgod<br><br>Os na weithredir cytundeb rheoli pysgodfeydd rhanbarthol - i wneud darpariaeth drwy Reoliadau ynghylch pysgota môr gan gynnwys meintiau'r pysgod sy'n cael eu dal, glanio, sgil-ddalfeydd, cyfyngiadau o ran isafswm maint, targedau stociau morol, cyfarpar pysgota, dulliau pysgota, prosesu pysgod môr, gwybodaeth, corff cynhyrchwyr, marchnata cynhyrchion pysgota, cadw cofnodion, rhywogaethau estron, rhywogaethau sy'n absennol yn lleol a gorfodi. | Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol os ydynt yn cynnwys:<br><br>diwygio neu ddiddymu deddfwriaeth sylfaenol; gosod ffioedd; creu trosedd neu gynyddu'r gosb ar gyfer trosedd neu ehangu cwmpas y drosedd honno; neu roi swyddogaethau ar gorff cynhyrchwyr yn y DU, neu sefydliad cydadrannol yn y DU, addasu ei swyddogaethau neu swyddogaethau sy'n ymwneud fel arall â rheoleiddio sefydliad o'r fath.<br><br>Os nad yw rheoliadau yn cynnwys darpariaeth a ddisgrifir uchod, maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. |
| Atodlen 8, paragraff 8(1) | Gwneud darpariaeth drwy Reoliadau at ddiben monitro, rheoli, | Gweithdrefn penderfyniad |

| | | |
|---|---|---|
| (Pwerau i wneud darpariaeth bellach) | atal neu waredu clefydau pysgod neu anifeiliaid dyfrol eraill. | cadarnhaol os ydynt yn cynnwys darpariaeth:<br><br>sy'n diwygio neu ddiddymu deddfwriaeth sylfaenol; gosod ffioedd; creu trosedd neu gynyddu'r gosb ar gyfer trosedd neu ehangu cwmpas y drosedd honno; neu roi swyddogaethau ar gorff cynhyrchwyr yn y DU, neu sefydliad cydadrannol yn y DU, addasu ei swyddogaethau neu swyddogaethau sy'n ymwneud fel arall â rheoleiddio sefydliad o'r fath.<br><br>Os nad yw rheoliadau yn cynnwys y ddarpariaeth a ddisgrifir uchod, maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. |
| Atodlen 9, paragraff 17, sy'n mewnosod adrannau 134A, 134B a 134C yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Diwygiadau Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009) | Gwneud darpariaeth drwy Orchymyn mewn perthynas â chamddefnyddio adnoddau pysgodfeydd môr yng Nghymru a pharth Cymru at ddibenion gwarchod ffawna a fflora morol, neu gynefinoedd morol. | Dim gweithdrefn gan y Senedd. |
| Atodlen 9, paragraff 18 (Diwygiadau Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009) | Gwneud darpariaeth dros dro drwy Orchymyn sy'n ymwneud â chamddefnyddio adnoddau pysgodfeydd môr yn rhanbarth môr mawr Cymru at ddiben gwarchod unrhyw | Dim gweithdrefn gan y Senedd. |

| | | |
|---|---|---|
| | nodwedd mewn ardal yn y rhanbarth hwnnw os yw Gweinidogion Cymru yn meddwl bod rhesymau i ystyried dynodi'r ardal yn MCZ a bod angen brys i warchod y nodwedd. | |